PWYLLGOR RHANBARTH Y GOGLEDD

Adroddiad i'r Cynulliad 2003-04

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn un o bedwar o bwyllgorau rhanbarth y Cynulliad. Mae'n cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Wrecsam a'r ardal o Wynedd sy'n cynnwys hen ardaloedd Arfon a Dwyfor.

1.2 Rhwng mis Gorffennaf 2003 a mis Mawrth 2004, cadeiriwyd y Pwyllgor gan Janet Ryder. Aelodau eraill y Pwyllgor yw Eleanor Burnham, Mark Isherwood, Alun Ffred Jones, Ann Jones, Denise Idris-Jones, Ieuan Wyn Jones, John Marek, Sandy Mewies, Alun Pugh, Carl Sargeant, Karen Sinclair and Brynle Williams. Mae'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas yn Aelod ond nid yw'n mynychu cyfarfodydd gan mai ef yw'r Llywydd.

1.3 Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith rhwng mis Gorffennaf 2003 a mis Mawrth 2004. Nodir y manylion yn **Atodiad 1**.

2. Cylch Gwaith a Dull Gweithio

2.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2, swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarth yw cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sy'n ymwneud â'u rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny, a gwaith cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau.

2.2 Yn ystod ei gyfarfod cyntaf, aeth y Pwyllgor ati i wahodd y cyhoedd i fynegi eu barn ar faterion i'w trafod yng nghyfarfodydd y dyfodol. Daeth y cynigion yn sail rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn, a ddaeth ar gael yn yr ail gyfarfod ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad.

2.3 Roedd pwyslais y cyfarfodydd ar annog y cyhoedd i gymryd rhan, gydag ambell gyflwyniad er mwyn annog y drafodaeth. Ar ôl pob cyfarfod, aeth y Pwyllgor ati i baratoi adroddiad yn crynhoi'r sylwadau a fynegwyd gan bobl Gogledd Cymru. Cyflwynwyd copïau i'r Aelod Cynulliad, y pwyllgor neu'r awdurdod cyhoeddus perthnasol er mwyn iddynt gael ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

2.4 Roedd llawer o aelodau'r cyhoedd yn bresennol trwy gydol y flwyddyn, gyda chyfartaledd o bron i gant yn mynychu cyfarfodydd ym Mhwllheli ac yn Llangollen. Ar ôl derbyn cais gan un o'r cyhoedd, cynhaliwyd cyfarfod peilot gyda'r nos ac argymhellwyd i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor gyfarfod gyda'r nos ddwywaith y flwyddyn (allan o gyfanswm o chwe cyfarfod).

2.5 Mae'r Pwyllgor wedi parhau'n ymrwymedig i fynd ati mewn modd cynhwysol o weithio. Cynhaliwyd cyfarfod ymhob un o ardaloedd awdurdodau lleol Gogledd Cymru mewn lleoliadau yr oedd modd eu cyrraedd drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Ceisiwyd sylwadau gan Fforymau Mynediad i'r Anabl cyn y cadarnhawyd lleoliadau'r cyfarfodydd. Defnyddiwyd gwasanaethau palanteipydd yn nau gyfarfod olaf y flwyddyn, a derbyniwyd adborth cadarnhaol gan y rhai a oedd yn drwm eu clyw.

3. Gweithgareddau 2003-04

3.1 Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw, ystyriwyd y materion canlynol yn y cyfarfodydd ffurfiol:

- Rheoli gwastraff;
- Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'r agweddau cynllunio sy'n ymwneud â thai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad;
- Adolygiad o Gynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad;
- Y system gynllunio ac ariannu newydd ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghymru;
- Masnach Deg, er mwyn cyd-fynd â Phythefnos Masnach Deg 2004.

3.2 Estynnwyd gwahoddiad i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad gan y Pwyllgor i fynychu'r cyfarfod a oedd yn ystyried yr adolygiad o Gynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad. O ganlyniad, ysgrifennodd Cadeiryddion Pwyllgorau Rhanbarthol at y Prif Weinidog yn awgrymu y dylid ymestyn yr arfer hon i bob pwyllgor rhanbarthol.

3.3 Yn ogystal â'r cyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol, cynhaliwyd sesiwn friffio anffurfiol gydag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru i drafod goblygiadau eu trefniant ariannol ar gyfer yr ardal.

4. Blaenraglen

4.1 Yn y cyfarfod diwethaf, awgrymwyd y dylai un o gyfarfodydd y dyfodol ystyried argaeledd gofal mewn hosbis yng Ngogledd Cymru. Argymhellais y dylai'r Pwyllgor barhau gyda'r arfer o wahodd y cyhoedd i awgrymu pynciau i'w trafod yn ystod y flwyddyn.

Janet Ryder AC
Mai 2004

DYDDIAD / LLEOLIAD	PWNC	YN BRESENNOL	ADRODDIAD	CANLYNIAD
4 Gorffennaf 2003 NEWI, Wrecsam	Rheoli gwastraff	8 o Aelodau'r Pwyllgor 36 o Aelodau'r Cyhoedd	Roedd adroddiad 1 yn codi pryderon am argaeledd dulliau cynaliadwy o reoli gwastraff a gofynnwyd am fwy o gyhoeddusrwydd i ymwybyddiaeth o wastraff a mwy o waith rheoli gwastraff yn gynaliadwy. Anfonwyd yr adroddiad at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cadeirydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (EPC), a Chyngor Gwynedd.	Ymatebodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd i'r pwyntiau cyffredinol a wnaed yn yr adroddiad. Croesawodd Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yr adroddiad, a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel sylfaen i'r broses graffu ar gynnydd er mwyn bodloni targedau rheoli gwastraff *Yn Gall Gyda Gwastraff*, yn enwedig targedau 2003-04 ar gyfer targedau ailgylchu a chompostio. Ymatebodd Cyngor Gwynedd i ymholiadau penodol a godwyd gan aelod o'r cyhoedd.
3 Hydref 2003 Neuadd Dwyfor, Pwllheli	Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'r agweddau cynllunio sy'n ymwneud â thai	5 o Aelodau'r Pwyllgor 137 o Aelodau'r Cyhoedd	Amlygodd Adroddiad 2 yr angen i gynnal cymunedau cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, a'r materion penodol yr oedd hwn yn ei godi mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru. Anfonwyd yr adroddiad at	Diolchodd Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'r Pwyllgor ac i'r cyhoedd am yr adroddiad, a gyfrannodd at ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

	fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad		Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.	Ymatebodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i ddau ymholiad penodol a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd.

27 Tachwedd 2003 (cyfarfod peilot gyda'r nos) Canolfan Fusnes Conwy, Cyffrodd Llandudno	Adolygiad o Gynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad	10 o Aelodau'r Pwyllgor 96 o Aelodau'r Cyhoedd	Cafodd y cyhoedd gyfle i holi'r Gweinidog dros yr Amgylchedd am Ddatblygu Cynaliadwy a gwneud sylwadau ar y broses o adolygu'r Cynllun. Roedd Adroddiad 3 yn crynhoi'r trafodion ac fe'i hanfonwyd at y Gweinidog dros yr Amgylchedd.	Ystyriwyd yr adroddiad fel cyfraniad i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy.
30 Ionawr 2004 Y Pafiliwn Rhyngwladol Brenhinol, Llangollen	Y system gyllido genedlaethol newydd ar gyfer addysg bellach	9 o Aelodau'r Pwyllgor 137 o Aelodau'r Cyhoedd	Mae Adroddiad 4 yn nodi pryder y cyhoedd am yr effaith a gaiff y system newydd ar hyfywedd addysg chweched dosbarth yng Ngogledd Cymru, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn benodol, ac atebolrwydd ELWa i'r cyhoedd. Codwyd pryder am y ffaith fod y Gronfa Her Dysgu yn dod i ben.	Ymatebodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i bryderon a godwyd yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Gweinidog bod ffynonellau ariannu amgen yn cael eu ceisio ar gyfer prosiectau Cronfa Her Dysgu lleol.
12 Mawrth 2004 Siambr y Cyngor, Llangefni	Masnach Deg	7 o Aelodau'r Pwyllgor 76 o Aelodau'r Cyhoedd	[Bydd yn rhaid cytuno ar Adroddiad 5 mewn cyfarfod ar 21 Mai a bydd copi yn cael ei anfon at y Prif Weinidog ac at awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru.]	